# Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol

# 2023/24 a 2024/25



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


Rhagair .... 3

Cyflwyniad .... 4

Ymateb i Argymhellion Archwilio Cymru .... 4

1. Rolau, cyfrifoldebau, a threfniadau llywodraethu .... 8

    Grŵp Diogelu Corfforaethol (GDC) .... 10

    Grwpiau Cyflawni Diogelu Corfforaethol .... 10

    Grŵp Cyflawni Gweithlu a Gweithle Diogel .... 10

    Grŵp Cyflawni Arferion Diogel a Pherfformiad .... 11

    Grŵp Partneriaethau Diogel .... 13

    (Grŵp Gweithredol Lleol Diogelu Sir Gaerfyrddin) .... 13

    VAWDASV - Grŵp Gweithredol Lleol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol .... 13

    Polisi Diogelu Corfforaethol .... 14

    Fframwaith Sicrwydd .... 14

    Archwiliadau Diogelu Cyfarwyddiaeth (hunanasesiad) .... 15

2. Trefniadau diogel i recriwtio staff a gwirfoddolwyr .... 15

    Trefniadau contractiol ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir .... 16

3. Hyfforddiant Diogelu .... 17

4. Adrodd ar Ddiogelu Corfforaethol .... 17

    Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol .... 17

    Mesurau Perfformiad .... 17

5. Rheoli Risg .... 22

6. Rhaglen Dreigl o Adolygiadau Archwilio Mewnol .... 22

7. Ystyried Risgiau ar Lefel Gorfforaethol a Gwasanaeth .... 23

Agweddau Ychwanegol ar Ymarfer Diogelu .... 23

    Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel .... 23

    PREVENT/CHANNEL .... 22

## Rhagair

Fel Aelod Cabinet dros Ddiogelu, mae'n fraint cael cyflwyno'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol hwn, sy'n dangos ymrwymiad diwyro'r Cyngor i ddiogelu plant ac oedolion yn ein cymunedau. Nid dyletswydd statudol yn unig yw diogelu, ond rheidrwydd moesol sy'n golygu bod angen i bawb ohonom gyda'n gilydd fod ar ein gwyliadwraeth, yn ymroddedig ac yn rhagweithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y camau breision rydym wedi'u gwneud i ymwreiddio diwylliant diogelu ar draws pob lefel o fewn ein sefydliad. Mae'n adlewyrchu ein hymdrechion parhaus i sicrhau bod gan bob gweithiwr, gwirfoddolwr, aelod etholedig a rhai sy'n gweithio ar ran y cyngor yr wybodaeth, y sgiliau a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r rhai yn ein plith sydd yn fwyaf agored i niwed.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi adolygu a diwygio ein polisïau a'n gweithdrefnau, wedi cryfhau ein trefniadau llywodraethu a rhoi pwyslais ar hyfforddiant a datblygiad parhaus. Mae'r mentrau hyn yn hanfodol er mwyn creu amgylchedd lle mae pawb yn deall eu cyfrifoldebau diogelu unigol a chorfforaethol, ac yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau.

Fodd bynnag, mae diogelu yn her sy'n esblygu o hyd ac sy'n mynnu ein sylw a'r angen i ymaddasu'n barhaus. Wrth inni symud ymlaen, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella ein harferion, i ddysgu o'n profiadau ac i ymdrechu am ragoriaeth ym mhob agwedd ar ddiogelu.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith a amlinellir yn yr adroddiad hwn ac at yr ymdrechion parhaus i ddiogelu o fewn ein sefydliad. Eich ymroddiad a'ch gwaith caled chi yw conglfeini ein llwyddiant.



Y Cynghorydd Jane Tremlett

Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cyflwyniad

Mae diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn flaenoriaeth i Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae Diogelu Corfforaethol yn disgrifio ymrwymiad y Cyngor o ran polisi a'r trefniadau sydd ganddo ar waith i sicrhau bod ei Gyfarwyddiaethau a'i weithwyr yn chwarae eu rhan wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion a allai fod mewn perygl o niwed.

Mae gan bawb – gweithwyr, contractwyr, gwirfoddolwyr a chynghorwyr – rôl i'w chwarae wrth ddiogelu plant ac oedolion rhag niwed, boed hynny oddi mewn neu oddi allan i'r cartref. Cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn ymwybodol o ddiogelu yn eu gwaith o ddydd i ddydd i'r Cyngor a'u bod yn gwybod sut a phryd i fynegi pryderon.

Yn ystod rhan olaf 2023 a thrwy gydol 2024, mae'r trefniadau diogelu corfforaethol sydd ar waith ar draws y Cyngor wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Er mai gweithgarwch wedi'i gynllunio oedd y rhan helaeth o'r gwaith hwn, sbardunwyd amryw o gamau gweithredu gan adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru ym mis Awst 2023.

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei ymrwymiadau Diogelu Corfforaethol, mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol wedi cytuno ar y meysydd ffocws thematig canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| ➲ | Llywodraethu Diogel | ➲ | Gweithle a Gweithlu Diogel |
| ➲ | Ymarfer a Pherfformiad Diogel | ➲ | Partneriaethau Diogel |

Nod yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y gwaith a wnaed mewn perthynas â phob un o'r meysydd hyn yn ystod 2023/24 a 2024/25. Mae hefyd yn nodi meysydd gweithredu parhaus yn 2025/2026.

Er bod yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymdrechion parhaus ar draws pob adran o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, nid yw'n cynnwys diweddariad cynhwysfawr ar y swyddogaethau statudol ar gyfer plant ac oedolion yr adroddir amdanynt ar wahân.

## Ymateb i Argymhellion Archwilio Cymru

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad cenedlaethol o drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghymru yn 2015, ac fe gynhaliwyd adolygiad dilynol yn Sir Gaerfyrddin ym mis Awst 2023. Roedd yr adolygiad yn cydnabod meysydd lle'r oedd y Cyngor yn cydymffurfio, ac yn nodi 5 maes ffocws gydag amryw o argymhellion cysylltiedig. Mae'r adolygiad hwn wedi rhoi cyfle i ddiwygio'r trefniadau diogelu corfforaethol sydd ar waith ar draws y sefydliad, ac yn ystod 2023/24 rydym wedi gwneud cynnydd yn gysylltiedig â'r holl gamau a argymhellwyd (gweler y tabl dros y dudalen)

| | Maes Ffocws | Camau Gweithredu a Argymhellwyd | Statws |
|---|---|---|---|
| 1 | **Rolau, cyfrifoldebau, a threfniadau llywodraethu** | Dylai'r Cyngor egluro pwy fydd yr Aelod Arweiniol ar gyfer diogelu corfforaethol a sicrhau'r canlynol: | **Cwblhawyd** |
| | | bod cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n glir pwy yw'r Aelod Arweiniol dros Ddiogelu Corfforaethol a'i fod yn gyson â Pholisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor | **Cwblhawyd** |
| | | bod diogelu corfforaethol yn cael ei adlewyrchu yng nghyfrifoldebau portffolio'r Aelod Cabinet perthnasol a'r pwyllgor craffu cysylltiedig | **Cwblhawyd** |
| | | bod gwybodaeth am rôl yr Aelod Arweiniol ar gyfer diogelu corfforaethol yn cael ei chyfleu i'r holl staff a rhanddeiliaid, gan gynnwys diweddaru gwefan y Cyngor. | ***Parhaus** |
| | | Dylai'r Cyngor ddiweddaru ei Bolisi Diogelu Corfforaethol i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu a'r oruchwyliaeth ar gyfer diogelu corfforaethol wedi'u nodi'n glir, gan gynnwys nodi pa bwyllgor craffu fydd â goruchwyliaeth dros drefniadau diogelu corfforaethol. | ***Cwblhawyd** |
| | | Dylai'r Cyngor sicrhau bod enw'r Grŵp Swyddogion Diogelu Corfforaethol yn cael ei ddefnyddio'n gyson yn ei ddogfennau ar ddiogelu er mwyn sicrhau eglurder ac osgoi unrhyw ddryswch. | **Cwblhawyd** |
| | | Dylai'r Cyngor ei sicrhau ei hun fod y Grŵp Swyddogion Diogelu Corfforaethol yn cyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn unol â'i Gylch Gorchwyl. | ***Cwblhawyd** |
| 2 | **Trefniadau diogel i recriwtio staff a gwirfoddolwyr** | Mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau presennol ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff, a hynny'n enwedig ar gyfer gwirfoddolwyr, a rhoi trefniadau goruchwylio corfforaethol effeithiol ar waith i sicrhau y dilynir arferion recriwtio diogel i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth | ***Parhaus** **dyddiad cwblhau - hydref 2025** |

| | Maes Ffocws | Camau Gweithredu a Argymhellwyd | Statws |
|---|---|---|---|
| | | Dylai'r Cyngor adolygu ei broses ddiwygiedig o ddefnyddio asesiadau risg i ganiatáu i staff weithio cyn derbyn y gwiriadau DBS gofynnol (a gyflwynwyd ganddo mewn ymateb i heriau a gododd yn ystod pandemig Covid-19), i'w sicrhau ei hun fod ganddo drefniadau recriwtio diogel ar waith, y cydymffurfir yn llawn â'r trefniadau hynny, ac nad ydynt yn gadael y Cyngor na'i ddefnyddwyr gwasanaeth yn agored i risg. | **Cwblhawyd** |
| | | Dylai'r Cyngor ei sicrhau ei hun fod ganddo drefniadau ar waith i sicrhau y dilynir darpariaethau contractiol mewn perthynas â diogelu, a bod y rhai a gomisiynir i wneud gwaith ar ran y Cyngor yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu, gan leihau drwy hynny'r risg i'r Cyngor a'i breswylwyr. | ***Parhaus** dyddiad cwblhau - hydref 2025 |
| 3 | **Hyfforddiant Diogelu** | Dylai'r Cyngor sicrhau bod goruchwyliaeth gorfforaethol effeithiol dros gydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu a ddarperir i'r holl staff, Aelodau Etholedig, llywodraethwyr ysgol a gwirfoddolwyr er mwyn ei sicrhau ei hun fod pobl yn deall eu cyfrifoldebau diogelu. | ***Cwblhawyd** |
| 4 | **Adrodd ar Ddiogelu Corfforaethol** | Dylai'r Cyngor gryfhau ei adroddiadau ar effeithiolrwydd ei drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac Aelodau Etholedig, gan gynnwys darparu gwybodaeth am berfformiad. Bydd hyn yn helpu i gryfhau trefniadau goruchwylio a sicrwydd y Cyngor ar gyfer diogelu corfforaethol a sicrhau ei fod yn rhoi ei Bolisi Diogelu Corfforaethol ar waith yn ymarferol. | ***Cwblhawyd** |
| 5 | **Rheoli Risg** | Dylai'r Cyngor ystyried a ddylid adfer risg diogelu corfforaethol benodol ar ei gofrestr risgiau corfforaethol er mwyn cryfhau goruchwyliaeth gorfforaethol. | ***Cwblhawyd** |
| | | Dylai'r Cyngor ei sicrhau ei hun fod pob adran yn ystyried risgiau diogelu yn llawn, ac os yw'n briodol, yn cynnwys y risgiau hynny ar gofrestrau risg yr adran. Gellir wedyn reoli a lliniaru'r risgiau hynny. | ***Parhaus** Dyddiad diweddu'r Peilot Archwilio |

| | Maes Ffocws | Camau Gweithredu a Argymhellwyd | Statws |
|---|---|---|---|
| | | | Diogelu Adrannol - 2025. Parhaus wedi hynny |

**Gwnaeth yr adolygiad hefyd argymhellion ychwanegol ar gyfer dau faes ffocws a gyflawnwyd yn foddhaol.**

| | Maes Ffocws | Camau Gweithredu a Argymhellwyd | |
|---|---|---|---|
| **6** | **Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor** | Gallai'r Cyngor ystyried sut y gall Archwilio Mewnol gefnogi'r Cyngor ymhellach i gael sicrwydd ynghylch ei drefniadau diogelu corfforaethol | ***Cwblhawyd** |
| **7** | **Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a hefyd ar lefel gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg** | Dylai'r Cyngor ystyried a ddylid adfer risg diogelu corfforaethol benodol ar ei gofrestr risgiau corfforaethol er mwyn cryfhau goruchwyliaeth gorfforaethol. | ***Cwblhawyd** |

***Rydym wedi gwneud llawer o waith i gwblhau'r holl gamau gweithredu a argymhellwyd, ond dylid nodi y bydd llawer o'r camau hynny'n parhau i fod yn berthnasol ac yn parhau i esblygu er mwyn rhoi sicrwydd parhaus.**

# 1. Rolau, cyfrifoldebau, a threfniadau llywodraethu

Mewn ymateb i'r maes ffocws hwn, cymerwyd y camau a ganlyn:

Mae Arweinydd y Cyngor wedi dyrannu cyfrifoldeb Diogelu Corfforaethol i'r aelod arweiniol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'r rôl hon wedi'i hegluro yn y Polisi Diogelu Corfforaethol. Mae cyfansoddiad y cyngor wedi'i ddiwygio a Diogelu Corfforaethol wedi'i ychwanegu at bortffolio'r Aelod Cabinet ac yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cytunwyd ar gynllun cyfathrebu ac mae nifer o ddulliau cyfathrebu fel llythyrau newyddion, posteri ac arbedwyr sgrin wedi cael eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth ynghylch rolau diogelu allweddol, polisi diogelu corfforaethol a digwyddiadau pwysig fel hyfforddiant diogelu a'r Wythnos Diogelu Genedlaethol. Mae sesiynau briffio wedi cael eu cynnal i Benaethiaid Gwasanaeth, Timau Rheoli Cyfarwyddiaeth a'r cyngor llawn.

Mae mewnrwyd a gwefan y Cyngor wedi cael eu hadnewyddu i sicrhau bod modd canfod gwybodaeth hanfodol, fel y polisi diogelu corfforaethol a sut i rannu pryderon am blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg. Mae'r tudalennau gwe wedi'u diweddaru yn darparu dolenni i feysydd perthnasol eraill a gwasanaethau cymorth ychwanegol sydd ar gael.

Gellir gweld y dudalen mewnrwyd diogelu corfforaethol yma.

Tudalen Mewnrwyd Diogelu Corfforaethol


Gellir gweld y dudalen we diogelu corfforaethol i'w gweld yma.

Tudalen We Diogelu

Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi cael ei ddiwygio ac yn cynnwys cyfeiriad at rolau a chyfrifoldebau allweddol. Mae'n rhoi pwyslais ar y ffaith bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb ac yn sicrhau bod yr holl staff, gwirfoddolwyr, aelodau etholedig a'r rhai sy'n gweithio ar ran y cyngor yn gwybod sut i nodi pryderon a sut i roi gwybod amdanynt. Bydd y Polisi Diogelu Corfforaethol yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a Pholisi.

Sicrhau bod Diogelu yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb i bawb fel polisi strategol corfforaethol i Gyngor Sir Caerfyrddin. Ym mis Tachwedd 2023, diwygiodd y Grŵp Diogelu Corfforaethol y trefniadau llywodraethu sydd ar waith a sefydlu strwythur llywodraethu newydd sy'n ymgorffori diogelu fel cyfrifoldeb i bawb ac sy'n sicrhau cysylltiadau rhwng partneriaid mewnol ac allanol. Caiff Diogelu Corfforaethol hefyd ei drafod yn rheolaidd yn y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.
Gellir gweld y trefniadau Llywodraethu Diogelu Corfforaethol yn Ffigur 1 dros y ddalen.

**Ffigur 1: Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Diogelu Corfforaethol**




**Yn cysylltu'r holl ffrydiau gwaith â'i gilydd ac yn sicrhau bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.*

## Grŵp Diogelu Corfforaethol (GDC)

Mae grŵp y Swyddogion Diogelu Corfforaethol wedi cael ei ailenwi'n **Grŵp Diogelu Corfforaethol** (GDC) ac mae wedi diwygio ei gylch gorchwyl a'i aelodaeth a chryfhau ei ffocws. Mae'r GDC yn goruchwylio'r holl drefniadau diogelu corfforaethol sydd ar waith ar draws y sefydliad, yn gosod blaenoriaethau blynyddol ac yn monitro cydymffurfiaeth. Defnyddir enw'r grŵp yn gyson drwy drwy'r holl ddogfennau a gohebiaeth gysylltiedig.

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei ymrwymiadau Diogelu Corfforaethol, mae'r GDC wedi cytuno ar y meysydd ffocws thematig canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| ➲ | Llywodraethu Diogel | ➲ | Gweithle a Gweithlu Diogel |
| ➲ | Ymarfer a Pherfformiad Diogel | ➲ | Partneriaethau Diogel |

Caiff y Grŵp Diogelu Corfforaethol ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cymunedau (Cyfarwyddwr Statudol) ac mae'n cyfarfod yn fisol yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Mae'r aelod Arweiniol dros ddiogelu corfforaethol hefyd yn mynychu'r cyfarfod ac yn chwarae rhan allweddol er mwyn sicrhau bod y bwrdd yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu. Parhawyd i gynnal y cyfarfodydd bob mis drwy gydol 2024 i sicrhau goruchwyliaeth reolaidd dros y camau a nodwyd yn adroddiad Archwilio Cymru. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd a wnaed, bydd y drefn yn newid i gynnal y cyfarfodydd bob chwarter drwy gydol 2025/26.

### Grwpiau Cyflawni Diogelu Corfforaethol

Sefydlwyd dau Grŵp Cyflawni Diogelu Corfforaethol newydd ym mis Mai 2024. Sefydlwyd y grwpiau i sicrhau cynnydd gweithgarwch sy'n ymwneud â'r meysydd ffocws allweddol. Mae gan bob cyfarwyddiaeth gynrychiolydd yn y grwpiau cyflawni ac mae'r rhai sy'n bresennol yn gyfrifol am raeadru gwybodaeth i dimau ac i nodi unrhyw feysydd ychwanegol i'w gwella. Y Grŵp Diogelu Corfforaethol sy'n gyfrifol am Lywodraethu Diogel.

### Grŵp Cyflawni Gweithlu a Gweithle Diogel

Caiff y Grŵp Cyflawni Gweithlu a Gweithle Diogel yn y Gweithle ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Weithredwr, ac mae'n canolbwyntio ar arferion recriwtio diogel, hyfforddiant diogelu a diogelu mewn gwasanaethau a gomisiynir. Mae'r grŵp wedi mynd i'r afael ar y cyd â'r meysydd a nodwyd yn archwiliad Archwilio Cymru.

Dyma flaenoriaethau'r grŵp hwn:

| Blaenoriaeth 1 | Recriwtio Diogel |
| --- | --- |
| Cryfhau trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â gwiriadau cyn cyflogaeth ar gyfer staff a gwirfoddolwyr a sicrhau bod yr holl arferion recriwtio diogel yn cael eu dilyn. | |

| Blaenoriaeth 2 | Hyfforddiant Diogelu |
| --- | --- |
| Sicrhau bod hyfforddiant diogelu priodol yn cael ei ddarparu i'r holl staff, i aelodau etholedig, i lywodraethwyr ysgol a gwirfoddolwyr, a bod trefniadau monitro priodol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth i raddau boddhaol. | |

| Blaenoriaeth 3 | Gwasanaethau a Gomisiynir |
| --- | --- |
| Sicrhau bod y rhai a gomisiynir i wneud gwaith ar ran y Cyngor yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu. | |

| Blaenoriaeth 4 | Unigolion mewn Swyddi o Ymddiriedaeth |
| --- | --- |
| Sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i reoli pryderon diogelu a rennir ynghylch staff mewn Swydd o Ymddiriedaeth | |

Dyma'r camau allweddol ar gyfer 2025/26:

- Cyflwyno system drwy'r cyngor i gofnodi holl wybodaeth a gweithgarwch gwirfoddolwyr
- Datblygu dull cadarn a chyson o hyfforddi ynghylch diogelu mewn ysgolion
- Datblygu ac ymwreiddio dull cyson o reoli a monitro contractau
- Adolygu'r prosesau sydd ar waith i reoli pryderon a rennir ynghylch gweithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin sydd mewn swydd o ymddiriedaeth gan gynnwys rhoi cyngor a chymorth.

## Grŵp Cyflawni Arferion Diogel a Pherfformiad

Caiff y Grŵp Cyflawni Arferion Diogel a Pherfformiad ei gadeirio gan yr Uwch-reolwr Diogelu Oedolion a Diogelu Corfforaethol ac mae'n canolbwyntio ar ymwreiddio gweithdrefnau diogelu, goruchwylio archwiliadau diogelu a gwersi a rennir o adolygiadau ymarfer diogelu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Dyma flaenoriaethau'r grŵp hwn:

| Blaenoriaeth 1 | Rheoli Risg |
|---|---|
| Sicrhau bod systemau cadarn ar waith i nodi, cofnodi, lliniaru a monitro risgiau diogelu corfforaethol | |

| Blaenoriaeth 2 | Polisïau, Gweithdrefnau ac Arferion Diogelu |
|---|---|
| Sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau ac arferion Diogelu yn cael eu hadolygu a'u diweddaru, ac y cyfathrebir yn eu cylch yn rheolaidd ar draws y sefydliad. | |

| Blaenoriaeth 3 | Archwilio a Gwerthuso |
|---|---|
| Sicrhau bod archwiliadau diogelu blynyddol yn cael eu cwblhau o fewn pob cyfarwyddiaeth a bod meysydd gwella'n cael eu hymgorffori mewn cynlluniau gweithredu priodol | |

| Blaenoriaeth 4 | Bod Diogelu yn Gyfrifoldeb i Bawb |
|---|---|
| Sicrhau bod diogelu plant ac oedolion wedi'i ymgorffori yn holl swyddogaethau'r sefydliad, a bod hynny'n flaenoriaeth i'r holl staff, aelodau etholedig a gwirfoddolwyr. | |

Dyma'r camau gweithredu allweddol ar gyfer y Grŵp hwn yn 2025/26:

- Adolygu a gwerthuso dulliau o nodi a chipio risgiau diogelu a chamau lliniaru a sicrhau goruchwyliaeth reolaidd ar lefel gorfforaethol.
- Adolygu a gwerthuso Polisïau a dogfennau Canllaw Diogelu presennol sydd mewn cylchrediad i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn cyd-fynd â'r Polisi Diogelu Corfforaethol
- Datblygu fframwaith i werthuso archwiliadau Diogelu adrannol a gwneud argymhellion yn seiliedig ar ganlyniadau, gan gynnwys meysydd i'w harchwilio ymhellach
- Gwella'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer codi ymwybyddiaeth o “ddiogelu fel cyfrifoldeb i bawb” ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid yn economi'r nos
- Datblygu fframwaith i rannu gwersi a ddysgir o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl yn rheolaidd a chyson

## Grŵp Partneriaethau Diogel
## (Grŵp Gweithredol Lleol Diogelu Sir Gaerfyrddin)

Fforwm amlasiantaeth sefydledig yw'r Grŵp Partneriaethau Diogel. Mae wedi'i alinio â Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn gweithredu'n unol â'i gylch gorchwyl. Er cysondeb rhanbarthol, adwaenir y grŵp fel Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gaerfyrddin (GGLlSG). Caiff y Grŵp ei gadeirio ar y cyd gan y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phennaeth y Gwasanaethau Plant. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac mae nifer dda o adrannau mewnol ac asiantaethau partner allanol yn bresennol. Mae'r grŵp yn dadansoddi data amlasiantaeth ar berfformiad diogelu, yn chwilio am atebion i heriau gweithredol ac yn ymateb i'r blaenoriaethau a osodir gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth yma am Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru:

Cysur | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru Diogelu plant ac oedolion

## VAWDASV - Grŵp Gweithredol Lleol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae Grŵp Gweithredol Lleol VAWDASV wedi cael ei sefydlu i sicrhau dull cydweithredol o fynd i'r afael â phob math o VAWDASV yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o adrannau mewnol o fewn y cyngor a phartneriaid amlasiantaethol.

Bydd y Grŵp Gweithredol Lleol yn allweddol er mwyn ymateb, ar lefel leol, i'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodir yn Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023-2027 (**Adeiladu Bywydau Hapusach, Cryfach a Mwy Diogel)**, ac ar gyfer nodi ac ymateb i feysydd ffocws penodol a all ddod i'r amlwg yn lleol.

Mae gan y grŵp rôl benodol o ran sicrhau cyfathrebu priodol ynghylch y gefnogaeth arbenigol sydd ar gael i oroeswyr a'u rhwydweithiau ehangach, a bod y gefnogaeth honno'n cael ei defnyddio a'i gwerthuso'n briodol. Bydd yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i nodi bylchau yn narpariaeth gwasanaeth a cheisio canfod atebion cydweithredol, gan sicrhau ymdriniaeth ag unrhyw rwystrau gweithredol neu strategol.

Mae Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023-2027 a'i chynllun cyflawni cysylltiedig ar gael yma.

Cy | Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cefnogodd y Cyngor ymgyrch y Rhuban Gwyn eto eleni, gan ddechrau gyda Diwrnod y Rhuban Gwyn ar 25 Tachwedd gan barhau ag un diwrnod ar bymtheg o weithredu.

Roedd thema bwerus eleni "Mae'n Dechrau gyda Dynion" yn tynnu sylw at rôl hanfodol dynion wrth atal trais tuag at fenywod a merched, drwy hyrwyddo parch a chydraddoldeb o fewn eu

cymunedau. Er bod cam-drin domestig yn effeithio ar y ddau ryw, dynion sy'n niweidio merched yn y nifer fwyaf o ddigwyddiadau treisgar.

I ddangos ei gefnogaeth, chwifiodd y Cyngor faner y Rhuban Gwyn yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin a Neuaddau Tref yn Llanelli a Rhydaman a goleuo Neuadd y Sir ar 25 Tachwedd. Gosodwyd arbedwyr sgrin ymgyrch y Rhuban Gwyn ar bob gliniadur gwaith gan ofyn i staff wneud addewid i "beidio byth â defnyddio, esgusodi na chadw'n dawel am drais dynion yn erbyn menywod". Gwelwyd posteri yn adeiladau'r Cyngor ac mewn gorsafoedd bysiau i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr ymgyrch, a dangoswyd negeseuon fideo ar sgriniau mewn llyfrgelloedd, theatrau, hwbiau a chanolfannau hamdden. Anogwyd staff i fod yn Llysgennad neu'n Hyrwyddwr i gefnogi'r ymgyrch a gwneud gwahaniaeth go iawn yn eu gweithle neu gymuned.

Fel cyflogwr, nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn goddef unrhyw fath o drais na cham-drin, ac mae'n deall mai'r cyflawnwr sydd yn gyfrifol am gamdriniaeth. Cafodd Polisi Cam-drin Domestig, Trais Domestig a Thrais Rhywiol y Cyngor ei ddiweddaru yn 2022, ac fe'i hadolygir yn 2025.

## Polisi Diogelu Corfforaethol

Ym mis Rhagfyr 2023, cytunodd Cabinet y Cyngor ar Bolisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig. Cafodd y Polisi ei wella i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chanllawiau arfer gorau Diogelu Corfforaethol Llywodraeth Cymru, gan roi ffocws ar atal a sicrhau bod yr holl staff, gwirfoddolwyr, cynghorwyr a phartneriaid wedi ymrwymo i ddiogelu plant ac oedolion a'u bod yn deall eu dyletswydd i roi gwybod am bryderon. Mae'r polisi'n egluro'r trefniadau llywodraethu ac yn nodi rolau a chyfrifoldebau allweddol.
Mae Penaethiaid Gwasanaeth wedi'u nodi fel yr Arweinwyr Diogelu Dynodedig (ADD) o fewn yr Awdurdod Lleol. Yn ogystal â bod yn bwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu, mae'r Arweinwyr hefyd yn gyfrwng i rannu gwybodaeth rhwng meysydd gwasanaeth a'r Grŵp Diogelu Corfforaethol.

Gellir gweld y polisi Diogelu corfforaethol yma.

Polisi Diogelu Corfforaethol

## Fframwaith Sicrwydd

Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol wedi cytuno ar y mecanweithiau y bydd yn eu defnyddio i'w sicrhau ei hun a'r Cabinet ei fod yn cyflawni ei rôl yn effeithiol.

Mae'r strwythur llywodraethu diwygiedig yn dangos dull y gorfforaeth gyfan o sicrhau goruchwyliaeth a chraffu rheolaidd ar weithgarwch diogelu. Drwy sefydlu grwpiau cyflawni diogelu pwrpasol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r GDC, gellir sicrhau ffocws rheolaidd ar swyddogaethau a gweithgarwch diogelu corfforaethol allweddol. Mae'r blaenoriaethau a nodir a'r camau gweithredu a gwblheir gan y grwpiau cyflawni yn galluogi'r GDC i roi sicrwydd digonol ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Bydd y GDC yn adolygu ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol.

Rydym wedi cytuno ar gyfres o fesurau perfformiad, a dadansoddir y rhain a'u hadrodd yn rheolaidd i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol. Bydd y data yn ei gwneud hi'n bosibl adnabod meysydd lle ceir arfer da a chyfleoedd i wella yn fuan. Yn ogystal â rhoi diweddariadau rheolaidd, bydd adroddiad Diogelu Corfforaethol blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r pwyllgor craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Archwiliadau Diogelu Cyfarwyddiaeth (hunanasesiad)

Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol wedi cytuno y bydd yn ofynnol i'r holl Gyfarwyddiaethau gynnal hunanasesiad blynyddol o'r trefniadau sydd ganddynt ar waith i gefnogi diogelu corfforaethol Mae pecyn cymorth i gyflawni hyn yn cael ei dreialu ar draws un gyfarwyddiaeth ar hyn o bryd ac adroddir adborth ar ei effeithiolrwydd wrth y GDC ar ddechrau 2025.

Nod yr hunanasesiadau yw nodi meysydd lle ceir arfer da a meysydd i'w gwella ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth. Bydd canlyniadau'r asesiadau'n cael eu hadrodd i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol drwy'r grŵp cyflawni arferion diogel a pherfformiad. Bydd y camau gwella yn cael eu cynnwys yng Nghynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau. Bydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn monitro cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu.

## 2. Trefniadau diogel i recriwtio staff a gwirfoddolwyr

Cydnabyddir bod recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel yn agwedd bwysig ar ddiogelu corfforaethol, ac mae'n ffocws allweddol i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol a'r Grŵp Cyflawni Gweithlu a Gweithle Diogel. Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu systemau a phrosesau i sicrhau trefniadau diogel a thrylwyr i recriwtio staff a gwirfoddolwyr. Cymerwyd nifer o gamau ychwanegol i gryfhau'r trefniadau hyn

### Goruchwyliaeth gorfforaethol dros Arferion Recriwtio Diogel

Drwy gydol 2023/24 mae nifer o ddogfennau polisi a chanllaw allweddol wedi cael eu diwygio a'u cymeradwyo i dynnu sylw pellach at brosesau recriwtio diogel. Mae hyn yn cynnwys:

- Dogfen ganllaw'r DBS
- Polisi Recriwtio Diogel
- Polisi Cyn-droseddwyr
- Polisi Gwirfoddoli

Bydd y tîm recriwtio, ar y cyd â rheolwyr, yn cynnal gwiriadau cyn cyflogi ar bob dechreuwr newydd. Caiff unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwiriadau hawl i weithio neu wiriadau cofrestru proffesiynol eu huwchgyfeirio i sylw'r Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol a'u adrodd wrth y Grŵp Diogelu Corfforaethol, ac anfonir llythyr "rhybudd" at y rheolwr recriwtio, ynghyd â hyfforddiant ychwanegol lle bo angen. Cyfeirir at y broses uwchgyfeirio hon yn y Polisi DBS sydd wedi'i ddiweddaru. Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio'r system recriwtio

ar-lein a fydd yn nodi unrhyw fylchau yn y broses gwirio cyn cyflogi, ac yn sicrhau dull cyson ar draws y Cyngor.
Er mwyn pwysleisio pwysigrwydd diogelu fel cyfrifoldeb i bawb, mae pob proffil swydd bellach yn cynnwys y datganiad diogelu canlynol:

*"Mae diogelu yn fater i bawb. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, gan weithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi eu buddiannau gorau, a rhoi gwybod am unrhyw bryderon."*

Cyfeirir y templed proffil swydd newydd i sylw rheolwyr recriwtio wrth iddynt ddilyn y broses recriwtio. Yn ogystal â hyn, mae'r system recriwtio ar-lein newydd yn ysgogi rheolwyr recriwtio i ddefnyddio'r templed Proffil Swydd ac yn eu cyfeirio i'r proffil hwnnw drwy fewnrwyd y Cyngor. Ceir hyd i'r templed proffil swydd yma.

Templed Proffil Swydd

Caiff rhai sy'n defnyddio'r system recriwtio ar-lein yn rheolaidd hefyd eu hatgoffa o'r gofyniad hwn mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac mae wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant ar recriwtio diogel sy'n cael ei rhoi ar waith ar draws y Cyngor.

Ym mis Ebrill 2024 diweddarwyd pob contract cyflogaeth newydd i gynnwys y datganiad diogelu hefyd. Mae hyn yn dystiolaeth bellach o ymrwymiad y cyngor i sicrhau bod pob gweithiwr yn deall ei gyfrifoldebau diogelu cyn dechrau cyflogaeth. Mae'r cyngor wedi adolygu ei ddefnydd o asesiadau risg i ganiatáu i staff ddechrau gweithio cyn cwblhau rhai gwiriadau cyn cyflogi. Cyflwynwyd yr asesiadau risg yn ystod pandemig COVID-19 ac ni chawsant ond eu defnyddio mewn meysydd lle'r oedd recriwtio mewn sefyllfa argyfyngus. Mae asesiadau risg yn parhau i gael eu defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol a gofynnir i'r Rheolwr Recriwtio gadarnhau bod ganddo'r mesurau diogelu ar waith wrth ddisgwyl derbyn gwiriad DBS. Cyfrifoldeb y Rheolwyr Recriwtio yw cadw cofnodion o'u hasesiadau risg.

Fel y cyfeiriwyd ato o'r blaen, bydd recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel yn faes ffocws allweddol parhaus i'r Grŵp Cyflawni Gweithle a Gweithlu Diogel. Bydd y penodiad dwy flynedd o hyd a wnaed yn diweddar i swydd Diogelu Cyflogaeth yn ychwanegu at hyn.

## Trefniadau contractiol ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhai a gomisiynir i wneud gwaith ar ei ran yr un mor ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu. Mae'r dogfennau a ddefnyddir yn y broses gaffael cael eu gwella i gynnwys cwestiynau penodol am ddiogelu, ac yn cynnwys cyfeiriad at y Polisi Diogelu Corfforaethol, a'r disgwyliad y cydymffurfir â'r polisi hwnnw. Mae dogfen ganllaw rheoli contractau'r cyngor wedi cael ei diweddaru a rhestr wirio rheoli contractau yn cael ei defnyddio. Mae gan lawer o feysydd gwasanaeth swyddogaethau monitro contractau pwrpasol ar waith ac mae adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal o gontractau uchel eu gwerth. Bydd gwaith pellach yn parhau drwy gydol 2025/26 i gryfhau'r trefniadau monitro

contractau presennol sydd ar waith ar gyfer pob contract. Mae polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cynnwys y gofynion disgwyliedig ar gyfer staff dan gontract.

## 3. Hyfforddiant Diogelu

Yn 2023, lansiodd Gofal Cymdeithasol Cymru Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Diogelu. Diben y safonau hyn yw sicrhau bod pawb yng Nghymru yn derbyn hyfforddiant a chyfleoedd dysgu a datblygu cyson o safon, sy'n berthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau, ac sy'n cynorthwyo gweithwyr i ddiogelu pobl hyd eithaf eu gallu. Mae data hyfforddiant presennol wedi cael ei wirio a'i fapio'n unol â Fframwaith Gofal Cymdeithasol newydd Cymru, a llinell sylfaen wedi'i nodi ar gyfer gofynion hyfforddiant diogelu i'r holl staff.

Gwnaeth y Grŵp Diogelu Corfforaethol benderfyniad cynnar y byddai hyfforddiant diogelu Grŵp A a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Lefel 1 (VAWDASV) yn orfodol i bob aelod o staff, gwirfoddolwr ac aelod etholedig. Darperir yr hyfforddiant hwn ar-lein ac yn y cnawd i sicrhau hygyrchedd i bawb.

Mae system rheoli dysgu a datblygu newydd wedi cael ei chyflwyno lle gall staff gael mynediad rhwydd at hyfforddiant a gweld yr hyfforddiant y maent wedi'i gael yn y gorffennol. Mae'r system yn atgoffa staff a rheolwyr yn rheolaidd ynghylch hyfforddiant gorfodol sydd heb ei gwblhau. Caiff yr holl ddata hyfforddi ei olrhain a'i adrodd wrth y Grŵp Diogelu Corfforaethol.

Mae llwybr cytunedig wedi cael ei ddatblygu ar gyfer hyfforddiant diogelu llywodraethwyr ysgolion, a chynlluniau ar waith i sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd ac yn gyson. Mae gwaith goruchwylio camau gweithredu yn gysylltiedig â hyfforddiant diogelu yn nwylo'r grŵp cyflawni Gweithlu a Gweithle Diogel.

## 4. Adrodd ar Ddiogelu Corfforaethol

Mae adroddiadau ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol y cyngor yn rhoi sicrwydd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, aelodau etholedig a dinasyddion Sir Gaerfyrddin. Yn unol ag arfer da, mae sawl dull o roi'r sicrwydd hwn wedi cael eu cryfhau.

### Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol

Yn y gorffennol, adroddwyd am weithgarwch a pherfformiad yn gysylltiedig â Diogelu Corfforaethol drwy Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr Statudol. I adeiladu ar y trefniant hwn, cytunodd y Grŵp Diogelu Corfforaethol y byddai adroddiad arbennig ar Ddiogelu Corfforaethol yn cael ei lunio'n flynyddol. Yr adroddiad hwn yw rhifyn cyntaf Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin.

### Mesurau Perfformiad

Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol wedi cytuno ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Drwy fonitro cynnydd yn erbyn y mesurau a nodwyd byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus ac yn nodi cyfleoedd gwella yn gynnar. Bydd prosesau casglu data yn cael eu cyflwyno mewn dau gam.


Mae mesurau Cam 1 yn adroddadwy o fis Ebrill 2024 a bydd mesurau Cam 2 yn cael eu casglu a'u hadrodd o fis Ebrill 2025. Bydd y mesurau hyn yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â gwaith olrhain argymhellion archwilio.

Dyma fanylion am ddata Cam 1:

## Diogelu A

**Pob un a gwblhawyd**


**Total Staff: 8,398**





## VAWDASV


**Pob un a gwblhawyd**

**Total Staff: 8,389**






## DBS









# Partneriaeth Fwy Diogel - Plant




















# Partneriaeth Fwy Diogel – Oedolion



Rhestrir Mesurau arfaethedig Cam 2 isod:

- Hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau (Grŵp B)
- Hyfforddiant diogelu i Aelodau Etholedig wedi'i gwblhau
- Hyfforddiant diogelu Llywodraethwyr Ysgol wedi'i gwblhau
- Adroddiadau PREVENT a dderbyniwyd
- Adroddiadau Caethwasiaeth Fodern
- Nifer yr Archwiliadau Hunanasesu Diogelu Cyfarwyddiaeth a gwblhawyd.
- Nifer yr adroddiadau Diogelu yn gysylltiedig ag Unigolion mewn Swyddi o Ymddiriedaeth - gweithwyr Sir Gaerfyrddin
- Nifer y Gwiriadau Diogelu Monitro Contractau a Gwblhawyd
- Nifer cyfartalog yr achosion a ddelir gan weithwyr cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant.

Mae adrodd, dadansoddi a deall data diogelu corfforaethol wedi cael ei nodi'n flaenoriaeth datblygu gan y Grŵp Diogelu Corfforaethol. Bydd dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod y wybodaeth a adroddir yn parhau i fod yn berthnasol ac yn rhoi'r sicrwydd priodol.

## 5. Rheoli Risg

Mae nodi a lliniaru risgiau diogelu yn rhan hanfodol o ddiogelu corfforaethol. Er bod y Grŵp Diogelu Corfforaethol y goruchwylio'r risgiau Diogelu Corfforaethol a nodwyd, mae'r rhain hefyd wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n ceisio sicrwydd ynghylch mesurau lliniaru.

Mae Archwiliadau Hunanasesu Diogelu Cyfarwyddiaethau wedi dechrau a byddant yn parhau drwy gydol 2025/26, gan eu hailadrodd yn flynyddol. Bydd yr archwiliadau'n nodi meysydd risg posibl a fydd yn cael eu hystyried gan y Grŵp Diogelu Corfforaethol a bydd camau gweithredu'n cael eu nodi a fydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gweithredu priodol. Bydd y grwpiau Cyflawni Diogelu Corfforaethol hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth nodi a lliniaru risgiau diogelu.

## 6. Rhaglen Dreigl o Adolygiadau Archwilio Mewnol

Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol ac Archwilio Mewnol wedi adolygu ac adnewyddu ei raglen dreigl o archwiliadau diogelu. Mae'r ffocws ar gyfer y cyfnod 2023-2026 yn cynnwys:

- Gyrwyr Cludiant Ysgol a Choleg a Chynorthwywyr Teithwyr – cydymffurfio â gofynion Diogelu
- Prosesau AD – Gwiriadau Cyn Cyflogi
- Dilyniant i argymhellion Adroddiad Archwilio Cymru
- Caffael/Contractio
- Adolygiadau Archwilio Gwasanaethau (Diogelu)

Bydd canlyniad yr archwiliadau yn cael ei rannu yn y Grŵp Diogelu Corfforaethol a chamau lliniaru wedi'u cynnwys mewn cynlluniau cyflawni ac ar gofrestrau risg lle bo'n briodol.

## 7. Ystyried Risgiau ar Lefel Gorfforaethol a Gwasanaeth

Mae dull gwell o nodi a lliniaru risgiau diogelu ar waith. Yn ogystal â'r rhaglen o archwiliadau cytunedig sydd wedi'u trefnu, bydd yr Archwiliadau Diogelu Cyfarwyddiaeth blynyddol yn cael eu monitro a'r risgiau a nodir yn cael eu huwchgyfeirio a'u cynnwys ar gofrestrau risg diogelu yr adran a'r gyfarwyddiaeth, ac ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol lle bo'n briodol.

## Agweddau Ychwanegol ar Ymarfer Diogelu

### Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel gadarn a rhagweithiol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r: Cyngor, y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Gan gydweithio â sefydliadau eraill, pwrpas y bartneriaeth yw mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn yn y sir. Mae prif feysydd y gwaith a gyflawnir ar y cyd yn cynnwys goruchwylio ymateb corfforaethol i ddyletswyddau statudol yn gysylltiedig â gwrthderfysgaeth a thrais difrifol, trosolwg strategol o waith partneriaeth gan gynnwys VAWDASV, Adolygiadau o Lofruddiaethau Domestig, a elwir bellach yn Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yng Nghymru, rheoli troseddwyr a grwpiau troseddau cyfundrefnol, gwaith atal yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn ac amddiffyn dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### PREVENT/CHANNEL

Mae rhwydwaith Prevent Sir Gaerfyrddin yn cynorthwyo'r cyngor a phartneriaid statudol i sicrhau bod preswylwyr Sir Gaerfyrddin wedi'u diogelu rhag yr ideolegau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth a naratifau eithafwyr treisgar. Gwneir gwaith rheolaidd gyda'r trydydd sector, y gymuned, a sefydliadau ffydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o Prevent, gan gynnwys sut i adnabod arwyddion radicaleiddio a rhannu pryderon. Mae **Panel Channel** amlasiantaeth Sir Gaerfyrddin yn cefnogi'r ffrwd waith PREVENT, o dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin. Ffocws y Panel Channel yw rhoi cefnogaeth yn fuan i bobl sy'n agored i radicaleiddio. Mae Channel yn defnyddio dull amlasiantaeth i:

- nodi pobl sy'n wynebu risg
- asesu natur a maint y risg honno
- datblygu'r cynllun cymorth mwyaf priodol ar gyfer yr unigolyn dan sylw

Mae Panel Channel Sir Gaerfyrddin yn elwa ar gyfranogiad rhagorol gan amryw o asiantaethau, a gwelir hynny'n amlwg yn y canlyniadau a sicrheir i bobl sy'n wynebu risg. Caiff gwaith y Panel Channel ei fonitro gan y Swyddfa Gartref. Caiff archwiliad sicrwydd blynyddol ei gynnal o'r Panel Channel, a'i gyflwyno i'w werthuso ac i gael adborth. Mae'r Swyddfa Gartref yn fodlon bod Panel Channel Sir Gaerfyrddin yn cyflawni ei swyddogaethau statudol.

Oherwydd y digwyddiadau trasig diweddar yn Southport, comisiynwyd adolygiad dysgu PREVENT ar y cyd gan Prevent y Swyddfa Gartref a Phlismona Gwrth-derfysgaeth, a phenderfynwyd cyhoeddi ei ganfyddiadau. Bydd yr awdurdod lleol a'i asiantaethau partner yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad ac yn gweithredu newidiadau a argymhellir lle bo angen.